Bevan Foundation

Fy swydd, fy nyfodol:

Crynodeb o drafodaeth gyda gweithwyr ifanc am "hyblygelwch" mewn rhanbarth gydlyniant o'r DG

Beth yw hyblygelwch? (flexicurity)

Dull yw hyblygelwch o reoli cyflogaeth mewn aelod-wladwriaeth sy'n golygu cyfuno mwy o **hyblygrwydd** i'r cyflogwr fedru diswyddo gweithwyr gyda mwy o **ddiogelwch** i'r gweithwyr ar ffurf budd-daliadau diweithdra a'u helpu i ddod o hyd i waith os ydyn nhw'n ddi-waith. Dadleuir y bydd hyblygelwch yn help i greu swyddi a gwneud yr economi'n fwy cystadleuol.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd ac aelod-wladwriaethau wedi cytuno y dylid cyflwyno hyblygelwch ar draws Ewrop, er bod nifer o 'lwybrau' gwahanol i sicrhau hyblygelwch gan ddibynnu ar ddull aelod-wladwriaeth o ddelio â diogelu cyflogaeth a nawdd cymdeithasol.

Trafodaethau am hyblygelwch

Cynhaliodd Sefydliad Bevan, sy'n felin drafod annibynnol, drafodaeth am hyblygelwch gyda phobl ifanc yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, rhanbarth gydlyniant yn y DG. Cynhaliwyd y trafodaethau yn ystod chwarter olaf 2007 a chwarter cyntaf 2008.

Rhannwyd gwybodaeth gennym am hyblygelwch ymhlith dros11,000 o bobl a sefydliadau, cynlluniwyd gwefan ac fe ymwelodd dros 1,000 o bobl â hi, a chasglwyd barn mwy na 100 o bobl drwy arolwg ar-lein, fforwm a thri grŵp trafod.

Dydy'r casgliadau hyn ddim yn rhai ystadegol gynrychioliadol ond er hynny, maen nhw'n rhoi syniad defnyddiol i ni am farn gyfredol pobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol am hyblygelwch mewn rhanbarth gydlyniant.

Rydyn ni'n cydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol rhaglen Cynllun D y Comisiwn Ewropeaidd; help gan BT, y DVLA, Coleg Ystrad Mynach, undebau PCS ac UNISON am drefnu grwpiau trafod a chyfraniad pawb sydd wedi lleisio'u barn.

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd

Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd mae poblogaeth o 1.9miliwn. Ar ôl hanes hir o ddirywiad mewn cyflogaeth, erbyn hyn, gwelir cynnydd yn nifer y swyddi a chyfradd cyflogaeth y rhanbarth. Fodd bynnag, er bod y farchnad lafur yn parhau'n wan gyda:

- lefelau uchel o segurdod economaidd o'i gymharu â chyfartaledd y DG, yn enwedig ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau;
- swyddi o ansawdd gwael, gwahanu swyddi ar sail rhyw, gor-gynrychiolaeth o waith rhan amser a gwaith dros dro;
- lefel isel o sgiliau a chymwysterau yn y boblogaeth a phrin yw'r hyfforddiant cysylltiedig â gwaith;
- cymorth cymharol wan i'r farchnad lafur, gyda chyfraddau isel o leoliadau gwaith a chadw pobl sy'n symud o fudd-daliadau diweithdra i mewn i waith.

Agweddau at hyblygelwch

Ein casgliad cyffredinol yw bod pobl yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn amheus o hyblygelwch. Mae hyn, i raddau yn ymateb i unrhyw syniad ddaw o'r newydd, ond roedd rhesymau eraill sef:

- Roedd y rhan fwyaf o bobl am gael gyrfa oherwydd fod hynny'n cynrychioli ychydig o sefydlogrwydd a dilyniant. Doedden nhw ddim yn sylweddoli y gallai hyblygelwch fod yn cynnig y nodweddion hyn.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn wyliadwrus o unrhyw ymgais i ostwng diogelwch cyflogaeth oherwydd eu bod yn credu bod gan gyflogwyr eisoes lawer o hawliau i ddiswyddo gweithwyr cyflogedig yn y DG.
- Roedd anesmwythyd sylweddol am ddarparu budd-daliadau diweithdra uwch i ddiogelu gweithwyr, oedd yn adlewyrchu'r dadleuon cyfredol am fudd-daliadau a chael help i ddod o hyd i waith. Yn gyffredinol, roedd pobl yn elyniaethus i'r syniad o gynyddu budd-daliadau i bobl oedd, yn eu tyb nhw, ddim yn dymuno gweithio.
- Roedd ymron y cyfan o'r bobl yn amheus o allu'r wladwriaeth i gynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith. Doedden nhw'n ddim yn meddwl llawer o'r ddarpariaeth 'o fudd-dal i waith' cyfredol nac o'r cyngor gyrfaol a doedden nhw ddim yn gallu gweld y gallai'r gwasanaethau hyn fod o gymorth.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi derbyn peth hyfforddiant cysylltiedig â swydd, ond yn teimlo bod y system addysgol yn gor-bwysleisio cymwysterau academaidd ar draul hyfforddiant galwedigaethol.

Nodwyd hefyd y byddai mwy o hyblygelwch yn golygu bod angen addasu polisïau eraill yn sylweddol, megis oedran ymddeoliad gorfodol, sgoriau credyd a threfniadau pensiwn.

Deuwn i'r casgliad, felly, bod cryn wrthwynebiad i'r syniad o hyblygelwch yn y rhanbarth hon o'r DG. Does dim amheuaeth gennym bod y farn gyhoeddus gyffredinol yn dylanwadu ar y safbwyntiau hyn ar ddiwygio lles a budd-daliadau yn y DG, ond rydyn ni hefyd yn ystyried bod gan y farchnad lafur gymharol wael yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ei rhan yn y modd y mae'r farn yn cael ei ffurfio.

O ystyried yr holl bwyntiau hyn, bydd unrhyw symudiad tuag at y model hyblygelwch yn y DG yn debygol o fod yn ddadleuol iawn ar hyn o bryd. Bydd angen cynnal trafodaeth eang i gyflwyno cysyniad sy'n gymharol gymhleth i'r cyhoedd os yw i gael cefnogaeth gyffredinol.

Mae copi o adroddiad llawn y prosiect (yn Saesneg yn unig) ar gael o:

Sefydliad Bevan, Tŷ Aneurin Bevan, 40 Stryd y Castell, Tredegar, Blaenau Gwent, NP22 3DQ

neu gellir ei lawrlwytho o:
www.myjob.bevanfoundation.org
e-bost: info@bevanfoundation.org

Mae Sefydliad Bevan yn elusen gofrestredig, rhif 1104191 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn y DG.